**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

13 Gorffennaf 2022

**Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)**

Annwyl Llyr,

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur gan y Llywodraeth ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ochr yn ochr â'ch gohebiaeth chi, dyddiedig 11 Gorffennaf.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad gael ei wneud ynghylch a ddylai Bil gael ei gyfeirio at bwyllgor cyfrifol i ystyried ei egwyddorion cyffredinol ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Nodasom hefyd eich trafodaethau diweddar gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd, gan gynnwys ei hymrwymiad i ddarganfod a ellid cyhoeddi'r Bil ar ffurf drafft yn ystod toriad yr haf.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n dychwelyd i ystyried amserlen y Bil ymhellach ar ddechrau tymor yr hydref, gan gynnwys yng ngoleuni a gafodd y Bil ei gyhoeddi ar ffurf drafft dros yr haf ac a yw eich Pwyllgor, wedyn, wedi gallu gwneud unrhyw waith ymgynghori dros yr haf.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

We welcome correspondence in Welsh or English.